

Beirniadaeth 337 – Cyfansoddi Cerddoriaeth BI 10 a dan 19 oed Cyfansoddi darn o gerddoriaeth ar gyfer unrhyw gyfuniad o offerynnau

Beirniad – Tim Heeley

Derbyniwyd 7 ymgais, ac roedd pob un ohonynt yn addas iawn ar gyfer elfen gyfansoddiad y cwrs Safon Uwch. Ar y cyfan, cyflwynwyd y sgôr yn glir ond yn gyffredinol roedd cyfle i fod yn llawer cliriach ynghylch y mynegiant sydd ei angen gan y perfformwyr gan y cyfansoddwyr.

Roedd creadigrwydd y syniadau gwreiddiol a'r motiffau cerddorol ym mhob un o'r cynigion yn addas iawn, ac roedd pob cyfansoddwr yn gallu ysgrifennu'n gyson yn yr arddull a ddewiswyd. Roedd yr ysgrifennu ar gyfer offerynnau yn gywir ar y cyfan, ac mewn rhai achosion roedd yn dangos dealltwriaeth ddofn o sut i chwarae'r offerynnau (Cathod Taf, Tywi a Cysgodion).

Roedd rhai cyfansoddwyr yn amlwg wedi meddwl am yr effaith y byddai'r gerddoriaeth yn ei chreu (Moelni, Buwch Goch Gota ac Awelon) ac roedd eu darnau wedi elwa o hyn. Roedd rhywfaint o ddefnydd da o dechnegau arddull cyfansoddiadol gan rai (Derwen y De & Cathod Taf) a symudodd eraill ymhellach i ffwrdd o gonfensiynau'r cyfnod clasurol i gael dull mwy creadigol o gytgord (Moelni a Buwch Goch Gota)

Roedd y cyfansoddiad buddugol yn sefyll allan oherwydd ansawdd y syniadau cerddorol, a'r ffordd y cawsant eu datblygu mewn modd aeddfed a medrus gan y cyfansoddwr i greu awyrgylch.

Canlyniadau

1af - Moelni - 337/1

2ail - Cysgodion - 337/6

3ydd - Awelon - 337/5